

Ymgynghoriad ffurfiol i sefydlu
Ysgol gynradd newydd ar
Ddatblygiad Glan Llyn
Fersiwn gryno syml i blant a phobl ifanc

2 Hydref 2017 - 12 Tachwedd 2017





If you would like this information in any other format, for example braille or large print, or help with interpretation in a different language, please contact Newport City Council on 01633 656656 or by emailing school.reorg@newport.gov.uk

Saesneg

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, er enghraifft braille neu brint bras, neu os hoffech gael help dehongli mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu e-bostiwrch school.reorg@newport.gov.uk

Cymraeg

如果您希望以其他格式獲取以上信息，例如凸字及大字體印刷，或者如您有口語翻譯的需求，請與新港市政府聯繫。電話：01633 656656 郵箱 school.reorg@newport.gov.uk

Cantoneg

Pokud byste chtěli tyto informace v libovolném jiném formátu, například braillovém písmu nebo velkém tištěném textu nebo pomoci s tlumočením v jiném jazyce, kontaktujte Newport City Council na čísle 01633 656656 nebo e-mailem school.reorg@newport.gov.uk

Tsiec

تفسیر بہ مک یا بزگ چاپ یا (ناب ینان ال فباء) بریل مثلاً خواہید می دی گرت در را اطلاعات این شما اگر ادرس این بہ یا 01633 656656 بریل دت ماس Newport City Council نیو پورٹ شہر شورای بالاطفا دی گرت زب ان در school.reorg@newport.gov.uk ک نید ایمیل

Farsi

Ha szeretné ezt az információt másmilyen formátumban, például Braille-írással vagy nagybetűvel nyomtatottan vagy szeretne fordítást különböző nyelven akkor legyen szives kapcsolatba lépni a Newporti Tanáccsal a 01633 656656 telefonszámon vagy emailezzen a school.reorg@newport.gov.uk

Hwngareg

Jei norite gauti aukščiau pateiktą informaciją kitais formatais, pvz., "Brailio raštu" ir dideliu šriftu spausdinimu, arba jei turite žodinį vertimą, susisieki su Niuporto miesto vyriausybe. Rhif ffôn: 01633 656656. Elektroninis Paštas: school.reorg@newport.gov.uk

Lithwaneg

如果您希望以其他格式获取以上信息，例如盲文及大字体印刷，或者如您有口语翻译的需求，请与新港市政府联系。电话：01633 656656 邮箱：school.reorg@newport.gov.uk

Mandarin

Jeśli chcesz te informacje w innym formacie, np. Braille'em czy dużym drukiem, lub pomoc przy tłumaczeniu w innym języku, prosimy o kontakt z Urzędem Miasta Newport na 01633 656656 lub wysyłając maila na school.reorg@newport.gov.uk

Pwyleg

Se você quiser essa informação em qualquer outro formato, por exemplo braille ou impressão em letra grande, ou ajuda com a interpretação em um idioma diferente, entre em contato com a Câmara Municipal de Newport através do número 01633 656656 ou enviando um email para school.reorg@newport.gov.uk

Portiwgieg

Dacă doriți această informație în alt format, de exemplu Braille sau în format mare, sau ajutor cu interpretarea în alta limbă, vă rugăm să contactați Newport City Council la numărul de telefon : 01633656656 sau prin e-mail-ul: school.reorg@newport.gov.uk

Rwmaneg

Если вы хотите получить вышеуказанную информацию в других форматах, таких как шрифт Брайля и большой шрифт, или если у вас есть необходимость в устном переводе, обратитесь в управление города Ньюпорт. Тел: 01633 656656 Электронная почта : school.reorg@newport.gov.uk

Rwsieg

V prípade, že potrebujete tieto informácie v inom formáte, ako napríklad Brajlove písmo alebo veľká tlač alebo potrebujete pomoc s prekladom alebo tlmočením do iného jazyka, prosím kontaktujte Newport City Council na telefónnom čísle 01633 656656 alebo mailom na school.reorg@newport.gov.uk

Slofaceg

Si desea esta información en cualquier otro formato, por ejemplo braille o letra grande, o ayuda con la interpretación en otro idioma, por favor póngase en contacto con el Ayuntamiento de Newport al 01633 656656 o por correo electrónico a school.reorg@newport.gov.uk

Sbaeneg

اشخاص ناب ینا) بریل پر طور کے مثال کے کریں پر سندک رنا حاصل میں شکل دوسری کے سی معلومات پر آپ اگر کونسل سٹی نیو پورٹ مہربانی برائے تو لئیے کے رجوعے میں زبان دوسری یا میں پر ڈنٹ بڑے یا (لئیے کے کریں میل ای رپ پر تہ اس یا 01633 656656 کریں رابطہ پر زم براس سے Newport City Council school.reorg@newport.gov.uk

Wrdw



Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn cynnig sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd yng Nghasnewydd i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed, ar ddatblygiad tai Glan Llyn, o fis Medi 2018.

Mae Glan Llyn yn ddatblygiad tai newydd yn nwyrain Casnewydd, yn ward Llanwern, a fydd yn cynnwys tua 4000 o anheddau pan gaiff ei gwblhau. O ganlyniad i faint y datblygiad, roedd cytundeb cynllunio'r Cyngor yn cynnwys gofyniad am ddwy ysgol gynradd 2 ddsbarth mynediad newydd (60 o lefydd ymhob grŵp blwyddyn, yn cyfateb i nifer derbyn cyhoeddedig o 60) er mwyn gwasanaethu teuluoedd yn byw ar y safle. Bydd hefyd ddsbarth meithrin â 24 o lefydd a all gymryd 48 o blant i gyd yn ystod y sesiynau bore a phrynhawn.

Caiff yr ysgol ei chomisiynu gan y datblygwr, St Modwen, a chaiff ei throsglwyddo i'r Cyngor yn ystod haf 2018. Er mwyn helpu'r ysgol i agor ym mis Medi 2018, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyflawni cynnig i ad-drefnu'r ysgol er mwyn ei sefydlu'n gyfreithiol. Mae'r ymgynghoriad ffurfiol hwn yn dynodi'r cam cyntaf yn y broses hon.

Sut y gallaf gymryd rhan?

Trefnwyd dwy sesiwn ymgynghori galw heibio. Mae croeso i chi ddod i unrhyw un o'r sesiynau hyn a chwrdd â swyddogion y cyngor wyneb yn wyneb i drafod y cynnig.

Lleoliad	Dyddiad ac Amser	Sesiwn
Ysgol Uwchradd Llysweri, Nash Road, NP19 4RP	Dydd Llun 16 Hydref 2017 4.30pm – 6.30pm	Sesiwn galw heibio
Ysgol Uwchradd Llanwern, Hartridge Farm Road, NP18 2YE	Dydd Mercher 25 Hydref 2017 4.30pm – 6.30pm	Sesiwn galw heibio

Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau ddydd Llun, 2 Hydref 2017 ac yn dod i ben am ganol nos ddydd Sul, 12 Tachwedd 2017.

Gellir cyflwyno sylwadau a chwestiynau drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb atodedig. Bydd y ffurflen hon ar gael yn y sesiynau galw heibio neu gellir ei lawrlwytho o www.newport.gov.uk/schoolreorganisation Dylai'r ymatebion hyn gael eu dychwelyd at Reolwr Datblygu'r Gwasanaeth Addysg, Ystafell 425w, Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR. Fel arall, gellir cyflwyno sylwadau a ffurflenni ymateb sydd wedi'u cwblhau drwy e-bost i school.reorg@newport.gov.uk

Cwestiynau ac Atebion

Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu?

Bydd y cynnig hwn yn cynyddu nifer y llefydd ysgol gynradd sydd ar gael yn nwyrain Casnewydd. Pan fydd yr ysgol yn llawn bydd ganddi 420 o ddisgyblion prif ffrwd o oedran ysgol statudol (sy'n cyfateb i nifer derbyn cyhoeddedig o 60), yn ogystal â meithrinfa â 24 o lefydd a dwy Ganolfan Adnoddau Dysgu AAA â lle i 10 disgybl yr un.

Fodd bynnag, bydd yr ysgol yn cael ei sefydlu fel "ysgol sy'n tyfu", gyda'r nifer derbyn cyhoeddedig yn 15 o fis Medi 2018, gan gynyddu i 30 o fis Medi 2019 a 45 o fis Medi 2020, cyn cyrraedd 60 o fis Medi 2021 ymlaen.

O dan y model hwn, bydd cap ar niferoedd derbyn yn y tair blynedd gyntaf fel bod yr ysgol yn tyfu gyda maint y datblygiad. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos, mewn ardaloedd â datblygiad tai sylweddol, fod mwy o bwysau'n aml ar lefydd Meithrin a Derbyn na'r grwpiau blwyddyn hynny sy'n uwch yn yr ysgol. O ganlyniad, bydd nifer derbyn y Dosbarth Derbyn yn 30 o fis Medi 2018 gan gynyddu i 60 o fis Medi 2020.



Beth yw ysgol "sy'n tyfu"?

Mae agor ysgol newydd fel ysgol sy'n tyfu yn golygu y gall dyfu mewn maint wrth i boblogaeth y datblygiad dyfu. Cynigir bod yr ysgol hon yn tyfu'n raddol dros bedair blynedd.

Pam mae ysgol "sy'n tyfu" yn ateb priodol?

Mae'r ysgol newydd yn cael ei darparu gan ddatblygwyr y safle fel rhan o'r cytundeb cynllunio â'r Cyngor er mwyn diwallu anghenion y gymuned leol.

Fodd bynnag, pan fydd yn agor ni fydd y datblygiad tai wedi'i gwblhau'n llawn, ac ni all y Cyngor ond gadael i'r disgyblion hynny sy'n byw yn y dalgylch gael eu derbyn i ysgol na chadw llefydd mewn ysgol i unrhyw ddisgybl a all symud i mewn i'r dalgylch wedyn.

Petai ysgol newydd yn agor i'w chapasiti llawn yn syth felly, gallai ceisiadau mynediad gael eu gwneud gan blant o bob rhan o'r Ddinas a hyd yn oed o'r tu allan iddi. Bydd agor yr ysgol fel ysgol "sy'n tyfu" yn helpu i liniaru'r risg hon.

Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd brofiad blaenorol o sefydlu ysgol sy'n tyfu, gan mai dyma'r model a ddefnyddiwyd i agor Ysgol Gynradd Parc Jiwbilil ym mis Medi 2017. Mae cynghorau mewn ardaloedd Awdurdod Lleol eraill wedi agor ysgolion newydd o dan fodel ysgol sy'n tyfu yn llwyddiannus yn y gorffennol, ac mae cyswll ledled y rhanbarth i'r trefniadau hyn gefnogi datblygiadau tai newydd.

Pryd y bydd hyn yn digwydd?

Cynigir y bydd yr ysgol gynradd newydd yn agor ym mis Medi 2018.

Beth yw cost y prosiect?

Mae'r holl gostau adeiladu sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn yn cael eu talu gan y datblygwyr fel rhan o'i gytundeb cynllunio â'r Cyngor. Fodd bynnag, y Cyngor sy'n gyfrifol am yr holl osodiadau, ffitiadau a chyfarpar sy'n ofynnol i gefnogi'r ysgol newydd. Ariennir y costau hyn drwy Raglen Gyfalaf y Cyngor ac maent wedi'u cynnwys yng nghynnig Band B Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Beth fydd dalgylch yr ysgol?

Bydd gan yr ysgol gynradd newydd ddalgylch penodol, ac ar gyfer addysg uwchradd, mae'r ardal hon o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Lliswerry.

Sut mae gwneud cais ar gyfer yr ysgol hon?

Cyngor Dinas Casnewydd fydd yr awdurdod derbyniadau ar gyfer yr ysgol gynradd newydd a gynhelir gan y gymuned, a chaiff ceisiadau derbyn eu hasesu yn unol â Pholisi Derbyniadau Ysgol y Cyngor. Ceir rhagor o wybodaeth am y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion ar wefan y Cyngor yn

www.newport.gov.uk/schooladmissions

Sut caiff y Corff Llywodraethu ei ethol?

Os cytunir ar y cynnig hwn, bydd Corff Llywodraethu dros dro yn cael ei benodi a fydd yn gyfrifol am benodi Pennaeth, cytuno ar strwythur staffio a phenderfynu ar bethau eraill fel enw'r ysgol, gwisg ysgol a logo.

Sut a phryd y caiff staff eu penodi?

Byddai angen i'r Corff Llywodraethu dros dro ystyried yr amserlenni ar gyfer penodi Pennaeth fel bod modd sefydlu strwythur staffio priodol o athrawon a staff cymorth a chynnal proses recriwtio yn barod i'r ysgol agor. Fel ysgol sy'n tyfu, bydd niferoedd staff yn cynyddu'n raddol nes i'r ysgol fod yn llawn. Dim ond grŵp cymharol fach o staff fydd yn y flwyddyn gyntaf.





Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Sefydlu ysgol gynradd newydd yng Nghasnewydd ar ddatblygiad Glan Llyn

Mae eich sylwadau'n bwysig. Mynegwch eich barn am y cynnig drwy gwblhau'r holiadur hwn a'i ddychwelyd at Reolwr Datblygu'r Gwasanaeth Addysg, Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 425W, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR. Fel arall, gallwch anfon eich sylwadau mewn e-bost i school.reorg@newport.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos ddydd Sul 12 Tachwedd 2017.

Noder na chaiff ymatebion negyddol i'r ymgynghoriad hwn eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau affafriol. Dim ond ar ôl i hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

A ydych yn cefnogi'r cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd a gynhelir gan y gymuned i blant rhwng 3 ac 11 oed ar ddatblygiad tai Glan Llyn o fis Medi 2018?

Ydw

Nac ydw

Defnyddiwch y blwch isod i nodi unrhyw resymau neu sylwadau (gan gynnwys opsiynau amgen).

Nodwch pwy ydych (e.e. rhiant/gofalwr plentyn sy'n mynychu meithrinfa leol)

Os hoffech gael eich hysbysu bod yr adroddiad ar yr ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi, rhowch eich manylion cyswllt:

E-bost: _____

Cyfeiriad post: _____



